**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 18 Awst 2022 am 3.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

**Siambr y Cyngor**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis   Y Cynghorydd C Middle

Y Cynghorydd L A Tomkinson   Y Cynghorydd R Williams

**Zoom**

Y Cynghorydd J Bonetto   Y Cynghorydd D Grehan

Y Cynghorydd W Owen

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

**Siambr y Cyngor**

Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

**Zoom**

Y Cynghorydd R Bevan

## 50 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hughes, J Smith a D Williams.

## 51 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

8. CAIS: 22/0585.

Nododd y Cynghorydd Craig Middle, fuddiant personol a rhagfarnllyd canlynol: "Rwy'n Gyfarwyddwr ar Harlech Property Development Ltd sy'n berchen ar yr eiddo, a fy mab, Joss Middle yw'r ymgeisydd".

## 52 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**53 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**54 COFNODION 21.07.22**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2022 yn rhai cywir.

**55 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**56 CAIS RHIF: 21/1690**

**Bwriad i adeiladu annedd newydd gyda garej ynghlwm (Ailgyflwyno 21/1208/10) (Ffin llinell goch ddiwygiedig wedi dod i law 10/03/2022), TIR GER CARTREF MELYS, HEOL LLECHAU, WATTSTOWN, PORTH, CF39 0PP.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Robert Hathaway (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan nodi ei fod e'n cefnogi'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl ei ystyried, roedd yr Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â chymeriad eiddo presennol, cyfagos, ac roedden nhw'n fodlon ar ei leoliad mewn perthynas â ffiniau aneddiadau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Rhondda Cynon Taf.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**57 CAIS RHIF: 22/0769**

**Annedd ar wahân, ffurfio'r tir, ehangu'r mynediad a maes parcio (Ailgyflwyno cais 21/1662/10). TIR I'R GORLLEWIN O RANDIR HEOL LLECHAU, HEOL LLECHAU, WATTSTOWN, PORTH.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Scott Phelps (Ymgeisydd)
- Robert Hathaway (Asiant)

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan nodi ei fod e'n cefnogi'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**58 CAIS RHIF: 21/1555**

**Rhyddhau amod 13 - lefelau tir presennol a lefelau tir/llawr gorffenedig arfaethedig ar gyfer caniatâd cynllunio 18/1411/10. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 21/04/2022) HEN YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLANTRISANT, STRYD YR YSGOL, LLANTRISANT, CF72 8EN.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Steffan Harries (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Nododd y Pwyllgor nad oedd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Holmes, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, a oedd wedi gofyn am annerch yr Aelodau ar y Cais yn bresennol i wneud hynny.

Cyfeiriodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol at lythyr 'hwyr' oddi wrth ddeiliaid yr eiddo cyfagos yn amlinellu'r rhesymau dros eu gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, roedd rhai pwyntiau eisoes wedi codi'n rhan o'r adroddiad.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**59 CAIS RHIF: 21/1073**

**Annedd Sengl. (Derbyniwyd y ffin goch ddiwygiedig ar 26/01/22) TIR GER 23 GLAN-YR-AFON, TREORCI.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**60 CAIS RHIF: 21/1440**

**Amrywio amod 1 - terfyn amser y caniatâd cynllunio 12/0367/10. (Derbyniwyd Archwiliad o Strwythurau Ystlumod a'r Asesiad Ecolegol ar 04/03/22) NEUADD YR EGLWYS, LLYS TYLCHA FAWR, TONYREFAIL**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**61 CAIS RHIF: 22/0585**

**Estyniad dwbl i gefn yr eiddo 85 HEOL Y TYLE, MAES-Y-COED, PONTYPRIDD, CF37 1EF.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 51), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C. Middle y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.)

**62 CAIS RHIF: 22/0679**

**Cais Amlinellol ar gyfer hyd at 15 o dai gan gynnwys mynediad, maes parcio, system ddraenio, ardaloedd bioamrywiaeth a gwaith allanol ategol. TIR GER CILGANT BURGESSE, LLANTRISANT, CF72 8QB.**

Cyfeiriodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol at dri llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth drigolion dau eiddo cyfagos, a oedd yn codi pryderon am blotiau 14 a 15 y datblygiad arfaethedig. Atgoffwyd yr aelodau mai cais amlinellol yn unig oedd hwn, ac y byddai'n destun cais materion wedi'u cadw'n ôl yn ôl yn ddiweddarach, ac felly bydd angen ymgynghori ag eiddo cyfagos eto yn y dyfodol.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau cytundeb adran 106 sy'n gofyn am:

- 2 thŷ â 2 ystafell wely at ddiben perchentyaeth cost isel:
- 1 tŷ â 3 ystafell wely at ddiben perchentyaeth cost isel:

Dylid adeiladu'r unedau Perchentyaeth Cost Isel i safon Gofyniad Ansawdd Datblygu a sicrhau eu bod ar gael i'w gwerthu i brynwyr tro cyntaf a enwebwyd gan y Cyngor o'r Gofrestr Homestep. Dylai cyfraniad y datblygwr gyfateb i 30% o werth y farchnad agored ar gyfer pob uned, hy, ni ddylai'r prynwr enwebedig dalu mwy na 70% o werth y farchnad agored fesul uned.

**63 CAIS RHIF: 22/0728**

**Newid defnydd y llawr gwaelod o Ddosbarth A3 (Bwyd a Diod) i Ddosbarth C3 (Fflat Breswyl). LLANTWIT HOUSE, SHAZS INDIAN TAKEAWAY, FFORDD LLANTRISANT, LLANILLTUD FAERDREF, CF38 2LT.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**64 CAIS RHIF: 22/0263**

**Trosi'r islawr yn fflat stiwdio hunangynhwysol 2 SCRANTON VILLAS, STRYD FAWR, CYMER, PORTH, CF39 9EU.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 21 Gorffennaf 2022, pan

wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu (Cofnod 23).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn oherwydd:

> Byddai'r defnydd preswyl arfaethedig, ar ffurf fflat hunangynhaliol ychwanegol o fewn islawr eiddo teras presennol, yn rhoi pwysau sylweddol ar y llain, yn cynrychioli defnydd gorddwys a gorddatblygiad o'r safle. Byddai ceisio cynnwys cynifer o unedau/ystafelloedd gwely ag y bo modd o fewn adeilad mor fach, yn arwain at greu llety byw cyfyng ac o ansawdd gwael i ddeiliaid y dyfodol. Fel y cyfryw, mae'r cais yn groes i Bolisi AW5 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Datblygu Fflatiau a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

## 65 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 25/07/2022 tan 05/08/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.12 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**